Comisiwn y Gyfraith

Diwygio'r gyfraith



# Adolygiad o Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014

## Crynodeb o'r Papur Ymgynghori

## Ynghylch Comisiwn y Gyfraith

Crëwyd Comisiwn y Gyfraith gan Ddeddf Comisiynau'r Gyfraith 1965, â dyletswydd i adolygu'r gyfraith a chynnig diwygiadau lle bo angen. Dyma'r corff swyddogol ar gyfer diwygio'r gyfraith yng Nghymru a Lloegr.

## Ynghylch y prosiect hwn

Mae cymdeithasau cydweithredol a chymdeithasau budd cymunedol yn gymdeithasau busnes. Maent yn ddewisiadau eraill, er enghraifft, yn lle cwmnïau a phartneriaethau. Mae Co-operatives UK yn cynrychioli cymdeithasau cydweithredol a chymdeithasau budd cymunedol. Mae'n dweud bod dros 7000 o gymdeithasau cydweithredol yn y DU, â thua 14 miliwn o aelodau, yn cyfrannu tua £40 biliwn i'r economi.

Mae cymdeithasau cydweithredol a chymdeithasau budd cymunedol yn cofrestru dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 ac yn cael eu rhestru ar Gofrestr Gyhoeddus Cwmnïau Cydfuddiannol. Y cofrestrydd yw'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA).

Mae Trysorlys EF wedi gofyn i ni adolygu Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 ('y Ddeddf') er mwyn ystyried a yw'r gyfraith yn gydnaws â natur ac anghenion cymdeithasau cydweithredol a chymdeithasau budd cymunedol, ac a yw'r trefniadau rheoleiddio yn gymesur ac yn effeithiol.

Rydym wedi cyhoeddi papur ymgynghori, sydd ar gael ar wefan ein prosiect. Yn y papur ymgynghori, rydym yn trafod y gyfraith bresennol ac yn gwneud cynigion amodol ar gyfer diwygio. Rydym yn gofyn i ymgyngoreion am eu barn. Mae'r papur hwn yn grynodeb o'r papur ymgynghori llawn.

Rydym yn annog pawb sydd â diddordeb i ymateb i'n hymgynghoriad. Nid oes rhaid i chi ateb pob cwestiwn. Gall ymgyngoreion ymateb drwy ddefnyddio ein ffurflen ar-lein. Mae manylion llawn ynglŷn â sut i ymateb i'w gweld yn ein papur ymgynghori.

Mae'r cyfnod ymgynghori ar agor tan 11.59pm ar ddydd Mawrth 10 Rhagfyr 2024.

# Cynnwys y papur ymgynghori

Mae ein papur ymgynghori yn cynnwys y penodau a ganlyn.

1. Mae Pennod 2 yn cyflwyno cymdeithasau cydweithredol a chymdeithasau budd cymunedol, eu fframwaith deddfwriaethol, a chwmpas ein hadolygiad.
2. Mae Pennod 3 yn trafod a ddylid cael diffiniad statudol newydd o gymdeithas gydweithredol.
3. Mae Pennod 4 yn trafod a ddylid cael diffiniad statudol newydd o gymdeithas budd cymunedol, ac a ddylai cymdeithasau budd cymunedol elusennol beidio â bod yn elusennau wedi'u heithrio.
4. Mae Pennod 5 yn ystyried y gyfraith sy'n ymwneud â cyfranddaliadau cymdeithasau.
5. Mae Pennod 6 yn ymwneud â swyddogion cymdeithasau, eu dyletswyddau, a pha wybodaeth amdanynt ddylai gael ei chyhoeddi.
6. Mae Pennod 7 yn trafod yr holl awgrymiadau eraill gan randdeiliaid lle rydym yn cynnig diwygiadau yn amodol. Mae'r pynciau'n cynnwys:
    - hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau'r cofrestrydd;
    - atal a chanslo cofrestriad cymdeithas;
    - ymwreiddio rheolau cymdeithasau;
    - cloeon asedau;
    - newid, uno, a throsglwyddo ymrwymiadau;
    - pwerau'r cofrestrydd; archwiliadau;
    - cyflawni dogfennau;
    - enwau cymdeithasau;
    - cyfarfodydd ar-lein;
    - newidiadau i reolau cymdeithasau;
    - cronfeydd anrhanadwy.
7. Mae Pennod 8 yn trafod yr holl awgrymiadau eraill a dderbyniwyd hyd yn hyn gan randdeiliaid lle nad ydym yn cynnig unrhyw ddiwygiadau ar hyn o bryd.
8. Mae Pennod 9 yn cynnwys ychydig bach mwy o gwestiynau i ymgyngoreion cyn cloi.
9. Mae Pennod 10 yn dod â'r holl gwestiynau a ofynnwyd yn y papur ymgynghori at ei gilydd mewn un lle.

Mae'r adrannau a ganlyn o'r papur hwn yn crynhoi Penodau 3 i 7.

# Cymdeithasau cydweithredol

## Cyflwyniad

Mae cymdeithasau cydweithredol yn gymdeithasau ar gyfer defnyddwyr, cynhyrchwyr, gweithwyr, neu gymysgedd ohonynt (a elwir yn aml-randdeiliaid). Rhan o'u diben yw sicrhau arbedion maint. Er enghraifft, pan fydd cynhyrchwyr neu weithwyr yn dod at ei gilydd fel aelodau o gymdeithas gydweithredol, gallai'r gymdeithas gydweithredol fynnu gwell prisiau yn y farchnad am y cynnyrch neu'r llafur. Pan fydd defnyddwyr yn dod at ei gilydd fel aelodau o gymdeithas gydweithredol, gallai'r gymdeithas gydweithredol sicrhau prisiau rhatach am nwyddau neu wasanaethau. Yna gall y gymdeithas gydweithredol basio'r prisiau gwell hynny ymlaen pan fydd yn gwerthu i'w defnyddwyr, yn prynu gan ei chynhyrchwyr, neu'n talu i'w gweithwyr.

Ar ddiwedd blwyddyn, os oes gan y gymdeithas gydweithredol warged masnachu, gellid ailfuddsoddi'r gwarged hwnnw yn y gymdeithas gydweithredol, neu ei ddosbarthu i aelodau fel difidend yn gymesur â'u trafodion gyda'r gymdeithas gydweithredol. Nid cyfran o elw yw hyn, ond addasiad o bris. Mewn gwirionedd, i ddefnyddwyr, mae'n ad-daliad, ac i gynhyrchwyr a gweithwyr, mae'n weddill terfynol ar yr hyn a oedd yn gostau amodol neu daliadau.

Mae'r Gynghrair Gydweithredol Ryngwladol (ICA) yn gorff cynrychioladol sy'n disgrifio ei hun fel stiward y Datganiad ar Hunaniaeth Cymdeithasau Cydweithredol. Mae'r ICA yn diffinio cymdeithas gydweithredol fel a ganlyn:

> Mae cymdeithas gydweithredol yn gymdeithas ymreolaethol o bersonau sydd wedi'u huno'n wirfoddol i fodloni eu hanghenion a'u dyheadau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol cyffredin drwy fenter y maent yn berchen arni ar y cyd ac sy'n cael ei rheoli'n ddemocrataidd.

Ategir y diffiniad hwn gan Egwyddorion Mentrau Cydweithredol, sef y "canllawiau sy'n galluogi cymdeithasau cydweithredol i roi eu gwerthoedd ar waith". Yn fyr, mae Egwyddorion Mentrau Cydweithredol yn cynnwys: aelodaeth wirfoddol ac agored; rheolaeth ddemocrataidd gan aelodau; cyfranogiad economaidd aelodau; ymreolaeth ac annibyniaeth; hyfforddiant a gwybodaeth; cydweithio â mentrau cydweithredol eraill; a phryder am y gymuned.

## Diffiniad

Er mwyn cofrestru fel cymdeithas gydweithredol, mae'r Ddeddf yn nodi ei bod yn ofynnol i gymdeithas fodloni'r FCA ei bod yn "gymdeithas gydweithredol ddilys". Mae hyn yn rhoi llawer iawn o ddisgresiwn i'r FCA wrth benderfynu beth yw cymdeithas gydweithredol, â phrin ddim rheolau statudol i'w gyfyngu, a dim hawl i apelio – er bod yr FCA wedi cyhoeddi Canllaw'r FCA sy'n nodi ei ddull gweithredu presennol. Mae Canllaw'r FCA yn dibynnu llawer iawn ar ddiffiniad yr ICA.

Gallai diffiniad statudol gwell gyfyngu ar y disgresiwn y mae angen i'r cofrestrydd ei ymarfer wrth benderfynu a ddylid cofrestru cymdeithas fel cymdeithas gydweithredol. Gallai hyn wneud y swyddogaeth gofrestru yn fwy effeithlon a rhagweladwy. Gallai hefyd gael grym esboniadol wrth gyfathrebu natur cymdeithasau cydweithredol i'r rhai sydd y tu allan i'r sector a darparu bachyn ar gyfer cynlluniau polisi.

Nid ydym yn credu bod mabwysiadu diffiniad yr ICA yn addas. Mae'r ICA yn gweithredu'n rhyngwladol, ac mae ei ddiffiniad yn ddatganiad priodol o safbwynt dyheadol o uchelgais wleidyddol fyd-eang. Fodd bynnag, yr hyn rydym yn chwilio amdano yw diffiniad sy'n gweddu i'r cyd-destun deddfwriaethol domestig yn y Deyrnas Unedig.

Rydym yn cynnig yn amodol y dylai diffiniad statudol o gymdeithas gydweithredol gynnwys y cynhwysion a ganlyn:

- ei bod yn gymdeithas ar gyfer cyflawni unrhyw fusnes yn bennaf er budd ei haelodau drwy drafodion gyda'i haelodau;
- bod aelodaeth yn wirfoddol ac yn agored i bawb, ag un bleidlais i bob aelod.

Nid yw ein diffiniad arfaethedig yn ceisio bod yn rhestr gyflawn o holl ddelfrydau cymdeithas gydweithredol. Yn hytrach, byddai'n cynnwys dim ond y gofynion sylfaenol sydd eu hangen er mwyn cofrestru dan y Ddeddf. Rydym hefyd yn cynnig y byddai unrhyw ddiffiniad yn ôl-weithredol: er mwyn cadw eu cofrestriad, byddai angen i gymdeithasau sy'n bodoli'n barod gydymffurfio.

Rydym yn gofyn am farn yr ymgyngoreion ynglŷn ag addasrwydd pob un o gynhwysion ein diffiniad arfaethedig. Rydym yn egluro'r rhesymau dros gynnwys pob cynhwysyn yn y paragraffau canlynol.

Ar hyn o bryd mae'r Ddeddf yn gofyn i gymdeithas gydweithredol fod yn gymdeithas ar gyfer cyflawni busnes. Nid ydym wedi clywed am unrhyw angen i newid yr elfen hon. Mae'r gofyniad y dylai'r busnes fod yn bennaf er budd ei aelodau yn gyson â diffiniad yr ICA, Egwyddorion Mentrau Cydweithredol, a'r arfer presennol.

Nid ydym yn meddwl ei bod yn ddigonol dim ond i ddweud bod cymdeithas gydweithredol yn darparu budd i'w haelodau. Gallai pob busnes geisio sicrhau budd i'w aelodau mewn rhyw ffordd. Yn hytrach, rydym yn ceisio nodi sut mae cymdeithas gydweithredol yn darparu budd i'w haelodau mewn ffordd sy'n amlwg yn wahanol. Credwn fod cymdeithas gydweithredol yn darparu budd i'w haelodau drwy drafodion gyda'i haelodau. Unwaith eto, credwn fod hyn yn gyson â'r rheoliadau a'r arferion presennol.

Er enghraifft, mae cymdeithas gydweithredol defnyddwyr yn gwerthu am brisiau teg i aelodau sy'n prynu ganddi. Mae cymdeithas gydweithredol gweithwyr yn ceisio pennu tâl teg i aelodau sy'n gweithio iddi. Mae cymdeithas gydweithredol cynhyrchwyr yn ceisio prynu am brisiau teg gan aelodau sy'n gwerthu eu cynnyrch iddi. Drwy'r trafodion hyn yn bennaf y mae cymdeithas gydweithredol yn ceisio darparu budd i'w haelodau. Os bydd gwarged masnachu yn cael ei ddychwelyd i aelodau fel difidend, mae hynny hefyd yn gymesur â'u trafodion gyda'r gymdeithas gydweithredol.

Ar y llaw arall, mae'n bosibl y gallai cwmni ddarparu budd i aelodau sy'n fuddsoddwyr drwy rannu elw gyda nhw. Gallai cymdeithas gydweithredol wobrwyo buddsoddwyr drwy dalu llog ar gyfranddaliadau, ond rydym yn cynnig uchafswm ar gyfer llog o'r fath (gweler isod) fel bod y pwyslais mwyaf yn parhau ar drafodion yn hytrach na buddsoddiadau.

Mae'r gofyniad y dylai aelodaeth fod yn wirfoddol ac yn agored i bawb unwaith eto'n gyson â diffiniad yr ICA ac Egwyddorion Mentrau Cydweithredol. Fodd bynnag, rydym yn cwestiynu a yw aelodaeth agored yn ddisgrifiad cywir. Mewn rhai achosion, gallai lleoedd ar gyfer aelodau fod yn gyfyngedig neu'n amodol ar broses ymgeisio, ac os hynny nid yw aelodaeth o'r gymdeithas gydweithredol benodol honno yn agored i bawb. Mae'n bosibl bod aelodaeth agored yn ddyhead i'r sector cydweithredol yn ei

gyfanrwydd ac na ddylai ymddangos fel cynhwysyn yn y diffiniad o gymdeithas gydweithredol unigol. Rydym yn awyddus i glywed barn rhanddeiliaid.

Mae democratiaeth yn un o'r nodweddion yn niffiniad yr ICA. Fodd bynnag, os yw democratiaeth yn mynd i fod yn un o wir nodweddion gwahaniaethol cymdeithasau cydweithredol, rhaid iddo olygu mwy na dim ond bod cymdeithasau cydweithredol yn pleidleisio weithiau. Mae pob busnes yn pleidleisio yn achlysurol o leiaf.

Gall democratiaeth olygu pethau gwahanol i wahanol bobl. Nid gwir ystyr amlwg democratiaeth yw'r hyn a geisiwn, ond arfer democrataidd benodol sy'n nodweddiadol o gymdeithasau cydweithredol ac yn ddigon sicr ar gyfer prawf statudol. Rydym yn cynnig un bleidlais i bob aelod. Mewn geiriau eraill, pan roddir pleidlais i'r aelodaeth, er enghraifft mewn cyfarfod cyffredinol blynyddol, bydd gan bob aelod bleidlais, ond dim ond un bleidlais.

Credwn fod un bleidlais i bob unigolyn yn ystyr canolog i ddemocratiaeth, a'i fod yn gyson ag Egwyddorion Mentrau Cydweithredol. Fodd bynnag, rydym wedi clywed nad yw pob cymdeithas gydweithredol yn dilyn yr arfer o un bleidlais i bob aelod, felly unwaith eto rydym yn annog ymgyngoreion i ystyried a fyddai hyn yn ofyniad hyfyw i gymdeithasau cydweithredol, ac i rannu eu barn.

# Cymdeithasau budd cymunedol

## Cyflwyniad

Er mwyn cofrestru fel cymdeithas budd cymunedol, mae'r Ddeddf yn nodi y dylai cymdeithas fodloni'r FCA fod "busnes y gymdeithas yn cael ei gyflawni, neu y bwriedir iddo gael ei gyflawni, er budd y gymuned".

Gallai cymdeithas budd cymunedol, er enghraifft, fod yn berchen ar dafarn leol, neu dirnod lleol megis pier, neu'n darparu lleoedd i alluogi gweithwyr llawrydd hunangyflogedig i rannu mannau gwaith, neu'n cyhoeddi papur newydd, neu'n datblygu rhwydwaith ynni adnewyddadwy lleol, neu'n darparu tai cymdeithasol.

## Diffiniad

Fel yn achos cymdeithasau cydweithredol, mae'r diffiniad presennol yn y Ddeddf yn rhoi llawer iawn o ddisgresiwn i'r FCA wrth benderfynu a ddylid derbyn rhywbeth fel cymdeithas budd cymunedol. Prin bod unrhyw reolau statudol yn cyfyngu ar yr FCA, ac nid oes hawl i apelio. Gallai diffiniad statudol gwell gyfyngu ar y disgresiwn hwn, gan wneud y swyddogaeth gofrestru yn fwy effeithlon a rhagweladwy. Gallai hefyd gael grym esboniadol a darparu bachyn ar gyfer cynlluniau polisi.

Rydym yn cynnig yn amodol y dylai diffiniad statudol newydd o gymdeithas budd cymunedol gynnwys y cynhwysion a ganlyn:

- ei bod yn gymdeithas ar gyfer cyflawni unrhyw fusnes er budd y gymuned yn unig;
- bod aelodaeth yn wirfoddol ac yn agored i bawb, ag un bleidlais i bob aelod.

Unwaith eto, byddai unrhyw ddiffiniad yn cael effaith ôl-weithredol: er mwyn cadw eu cofrestriad, byddai angen i gymdeithasau sy'n bodoli'n barod gydymffurfio.

Mae gorgyffwrdd clir â'r diffiniad o gymdeithas gydweithredol a awgrymir gennym. Nid cyd-ddigwyddiad yw hyn. Roedd deddfwriaeth yn 1939 yn rhannu cymdeithasau diwydiannol a darbodus yn gymdeithasau cydweithredol a chymdeithasau budd cymunedol. Fodd bynnag, cymhwysodd y cofrestrydd ar y pryd ofynion tebyg i'r ddwy ffurf, ac mae'r ddwy ffurf wedi cael eu cyplysu â'i gilydd mewn deddfwriaeth ers hynny.

Oherwydd bod y ddwy ffurf ar gymdeithas wedi'u cyplysu â'i gilydd o hyd yn y Ddeddf, a bod eu gofynion yr un mor gymwys i'r ddwy ffurf, mae'n gwneud synnwyr i'w trin mor debyg ag sy'n bosibl o ran eglurder ac effeithlonrwydd.

Mae un gwahaniaeth mawr rhwng cymdeithasau cydweithredol a chymdeithasau budd cymunedol yn ein diffiniadau arfaethedig: mae cymdeithasau cydweithredol yn cyflawni busnes yn bennaf er budd eu haelodau, tra mae cymdeithasau budd cymunedol yn cyflawni busnes er budd y gymuned yn unig. Os yw'r Ddeddf yn cydnabod dwy ffurf o gorfforaeth, credwn y dylid gwahaniaethu rhyngddynt. Mae'r ffordd o wahaniaethu a gynigir gennym yn lân ac yn ddealladwy ar unwaith, ac mae hynny unwaith eto'n hybu eglurder.

Mae'r gofyniad y dylai cymdeithas budd cymunedol gyflawni busnes er budd y gymuned yn unig yn gyson â'r arfer rheoleiddiol presennol. Credwn os yw rhywbeth sy'n galw ei hun yn gymdeithas budd cymunedol yn codi arian, y dylid defnyddio'r arian hwnnw er budd y gymuned. Ni ddylid defnyddio'r arian hwnnw er budd unigolion preifat hefyd – ni ddylai budd ddibynnu ar aelodaeth.

Mae'n bosibl y bydd aelodau o'r gymdeithas yn byw yn y gymuned, a bod aelodau o'r gymdeithas yn gallu elwa o'r budd a gynigir i'r gymuned, nid yn eu capasiti fel aelodau, ond yn eu capasiti fel trigolion. Mae hyd yn oed yn bosibl bod yr unig drigolion sy'n elwa o'r budd yn digwydd bod yn aelodau. Nid oes gwrthwynebiad i hyn cyn belled bod y budd yn cael ei gynnig i drigolion yn unig, ac nad yw'n ofynnol i fuddiolwr fod yn aelod.

Unwaith eto, efallai y byddai'n well edrych ar aelodaeth agored fel dyhead i'r sector cyfan yn hytrach na disgrifiad o unrhyw gymdeithas budd cymunedol unigol – efallai y bydd rhai cymdeithasau budd cymunedol yn cyfyngu aelodaeth. Yn yr un modd, mae'n bosibl na fydd un bleidlais i bob aelod yn adlewyrchiad cywir o'r arfer presennol. Rydym yn annog ymgynghorwyr i rannu eu barn.

## Elusennau wedi'u heithrio


Ar hyn o bryd, mae cymdeithasau budd cymunedol elusennol yng Nghymru a Lloegr yn elusennau wedi'u heithrio. Mae hyn yn golygu na allant gofrestru gyda'r Comisiwn Elusennol. Nid ydynt yn cael rhif cofrestru elusen. Ni allant newid i sefydliadau corfforedig elusennol. Nid yw rheolau cyfraith elusennau ar archwiliadau yn gymwys. Gall elusennau wedi'u heithrio yn hytrach gael "prif reoleiddiwr" wedi'i benodi i'w rheoleiddio (yn lle cael eu rheoleiddio gan y Comisiwn Elusennau), ond nid oes prif reoleiddiwr wedi'i benodi ar gyfer cymdeithasau budd cymunedol elusennol.

Credwn y dylai cymdeithasau budd cymunedol elusennol yng Nghymru a Lloegr gael eu rheoleiddio fel elusennau. Os yw cymdeithasau yn codi arian ar y sail y bydd yr arian hwnnw'n cael ei ddefnyddio at ddibenion elusennol, dylid sicrhau gonestrwydd ac effeithlonrwydd y gweithgaredd hwnnw drwy reoleiddio priodol.

Yn hytrach na phenodi prif reoleiddiwr, rydym yn cynnig yn amodol na ddylai cymdeithasau budd cymunedol elusennol fod yn elusennau wedi'u heithrio o hyn ymlaen. Yna gallent gofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau a chael eu trin fel elusennau eraill.

Byddai hyn yn cynhyrchu trefniadau rheoleiddio sy'n gorgyffwrdd: rheoleiddio fel elusennau gan y Comisiwn Elusennol, a rheoleiddio fel cymdeithasau gan yr FCA. Yn y cyswllt hwn, efallai y byddai'n gwneud synnwyr i'r Comisiwn Elusennau a'r FCA gytuno ar fframwaith ar gyfer cydweithio.

## Diffiniadau arfaethedig



# Cyfranddaliadau

Mae gan bob cymdeithas gydweithredol a chymdeithas budd cymunedol gyfranddaliadau. Gallai cyfranddaliadau fod â mwy nag un swyddogaeth. Er enghraifft, efallai y byddant yn dynodi aelodaeth, neu'n darparu hawl i bleidleisio, neu'n cynrychioli buddsoddiad. Gall gwerthu cyfranddaliadau helpu cymdeithas i godi arian. Maent hefyd yn cyfyngu atebolrwydd ariannol aelod am ddyledion y gymdeithas.

Nid yw cyfraith cyfranddaliadau cymdeithasau wedi datblygu llawer er 1876. Mae angen ei hegluro a'i moderneiddio. Gellir gwneud cymhariaeth ddefnyddiol â chyfraith cwmnïau, sydd wedi cael ei diweddaru'n fwy aml ac yn fwy diweddar.

## Cyfranddaliadau sydd ar gael

Credwn fod y Ddeddf eisoes yn caniatáu i gymdeithasau gynnig cyfranddaliadau y gellir eu tynnu allan neu na ellir eu tynnu allan, a chyfranddaliadau trosglwyddadwy neu anhrosglwyddadwy (ac rydym yn egluro beth mae'r termau hyn yn ei olygu isod). Gellir cynnig y rhain i aelodau sy'n trafod â'r gymdeithas, ac i fuddsoddwyr nad ydynt yn trafod â'r gymdeithas fel arall. Gall cymdeithasau gynnig gwahanol ddosbarthiadau o gyfranddaliadau – mewn geiriau eraill, cyfranddaliadau â gwahanol hawliau, megis gwahanol gyfraddau llog. Mae'r rhain i gyd yn ddewisiadau i'w penderfynu gan reolau'r gymdeithas. Rydym yn gofyn i ymgyngoreion a fyddai'n fwy dymunol i'r Ddeddf nodi hyn oll yn benodol.

## Cyfranddaliadau y gellir eu tynnu allan a chyfranddaliadau trosglwyddadwy

Credwn y gellid darparu mwy o sicrwydd pe bai cyfranddaliadau y gellir eu tynnu allan a chyfranddaliadau trosglwyddadwy yn cael eu diffinio. Rydym yn cynnig yn amodol bod cyfranddaliad y gellir ei dynnu allan yn un y gellir ei droi'n elw, fel bod cymdeithas yn talu gwerth y cyfranddaliad i ddeiliad y cyfranddaliad, yn gyfnewid am ganslo'r cyfranddaliad. Yn ogystal, gall cyfranddaliad y gellir ei dynnu allan gael ei dynnu allan os yw'r aelod neu'r gymdeithas yn dewis gwneud hynny, gan ddibynnu ar reolau'r gymdeithas. Mae cyfranddaliad trosglwyddadwy yn un y gellir ei drosglwyddo o un person i un arall fel bod y sawl y trosglwyddir y cyfranddaliad iddo yn dal y cyfranddaliad yn lle'r sawl sy'n ei drosglwyddo.

Credwn ei bod yn well os yw'r Ddeddf yn pennu'r amodau sylfaenol ar gyfer tynnu cyfranddaliadau allan neu eu trosglwyddo. Ar hyn o bryd mae ychydig o reolau statudol, a chredwn nad yw hyn yn foddhaol. Byddai rheolau sylfaenol yn sicrhau mesurau amddiffyn teg i aelodau, credydwyr, a'r cymdeithasau eu hunain. Byddai cymdeithasau yn gallu gosod amodau ychwanegol yn eu rheolau eu hunain.

Rydym yn cynnig yn amodol y dylai cymdeithas dalu am gyfranddaliadau y gellir eu tynnu allan dim ond os yw swyddogion y gymdeithas yn credu y gall y gymdeithas hefyd dalu ei dyledion bryd hynny, a phan fyddant yn dod yn ddyledus yn ystod y flwyddyn ganlynol. Dylai cymdeithas sy'n ystyried ceisiadau am dynnu cyfranddaliadau allan allu talu cyfran o'r cyfranddaliadau y gofynnir am gael eu tynnu allan, yn hytrach na'r cyfan neu ddim byd o gwbl, os dyna faint y mae'n gallu ei fforddio.

O ran cyfranddaliadau trosglwyddadwy, rydym yn cynnig yn amodol:

- bod angen caniatâd swyddogion cymdeithas er mwyn trosglwyddo cyfranddaliadau;
- gall swyddogion ddefnyddio eu disgresiwn i wrthod trosglwyddo cyfranddaliadau;
- rhaid iddynt ddefnyddio eu disgresiwn yn gyson â'u dyletswyddau fel swyddogion;
- rhaid i reolau cymdeithas ddarparu ar gyfer ffurf unrhyw drosglwyddiad.

Rydym yn nodi y gallai cyfranddaliadau trosglwyddadwy fod yn amodol ar reoleiddio ariannol y tu hwnt i'r Ddeddf, er enghraifft dan Ddeddf Gwasanaethau Ariannol a Marchnadoedd 2000.

## Newidiadau i hawliau dosbarth

Pennir hawliau dosbarth (pa hawliau sy'n mynd ynghlwm wrth ba gyfranddaliadau) gan reolau'r gymdeithas. Gall cymdeithas newid ei rheolau. Unwaith eto, credwn ei bod yn briodol cael mesurau amddiffyn pan fydd cymdeithas yn ceisio newid hawliau dosbarth.

Rydym yn cynnig yn amodol na ddylid newid hawliau dosbarth oni bai fod y newid yn cael ei gymeradwyo gan o leiaf 75% o'r cyfranddalwyr sy'n cael eu heffeithio. Gallai rheolau'r gymdeithas osod trothwy uwch. Os caiff cyfranddaliadau eu newid o fod yn rhai na ellir eu tynnu allan i fod yn rhai y gellir eu tynnu allan, dylai hynny olygu bod angen datganiad solfedd gan swyddogion y gymdeithas, wedi'i gadarnhau gan archwilydd. Credwn y dylid cael mesurau amddiffyn eraill i gyfranddalwyr sy'n dal i wrthwynebu unrhyw newid yn eu hawliau dosbarth, ac rydym yn gofyn i'r ymgyngoreion nodi pa rai fyddai orau ganddynt o opsiynau amrywiol wedi'u hysbrydoli gan gyfraith cwmnïau.

## Gostwng gwerth cyfranddaliadau

Gostyngir gwerth cyfranddaliadau pan fydd eu gwerth enwol yn cael ei ostwng, er enghraifft i roi adlewyrchiad cywirach o werth asedau sy'n dibrisio a brynir â'r arian a godwyd gan y cyfranddaliadau hynny. Rydym yn cynnig yn amodol, pan fydd cymdeithas yn ceisio gostwng gwerth ei cyfranddaliadau, y dylai fod angen datganiad solfedd gan swyddogion y gymdeithas, a chymeradwyaeth gan o leiaf 75% o bleidleiswyr mewn cyfarfod cyffredinol.

## Llog ar gyfranddaliadau

Ar hyn o bryd mae Adran 2(3) o'r Ddeddf yn darparu:

> Nid yw "cymdeithas gydweithredol" yn cynnwys cymdeithas sy'n cyflawni busnes, neu sy'n bwriadu cyflawni busnes, â'r amcan o wneud elw yn bennaf er mwyn talu llog, difidendau neu fonysau ar arian a fuddsoddwyd neu a adneuwyd gyda'r gymdeithas neu unrhyw berson arall, neu a fenthycwyd i'r gymdeithas neu unrhyw berson arall.

Cyflwynwyd y ddarpariaeth hon yn 1939 er mwyn atal twyllwyr rhag gwerthu cyfranddaliadau diwerth. Credwn fod adran 2(3) yn mynd i'r afael â'r broblem honno yn anuniongyrchol ar y gorau. Credwn hefyd nad yw'n adlewyrchu'n gywir beth sy'n digwydd yn ymarferol. Er bod cymdeithasau cydweithredol yn cyflawni busnes yn bennaf er mwyn darparu budd i aelodau drwy drafodion ag aelodau, mae'n bosibl y bydd angen iddynt wneud elw dim ond er mwyn trin eu dyledion.

Mae pryder yn y sector cydweithredol ynglŷn â cheisio gwneud elw, lle caiff elw o gymdeithas gydweithredol ei alldynnu o'r gymdeithas gydweithredol er budd preifat buddsoddwyr. Y risg yw y gallai'r busnes droi'n un sy'n canolbwyntio ar enillion i fuddsoddwyr yn hytrach na thrafodion

gydag aelodau. Credwn y dylid mynd i'r afael â phryder o'r fath yn fwy uniongyrchol nag a wneir gan adran 2(3). Yr un pryd, rhaid i'r gyfraith ganiatáu i gymdeithasau cydweithredol ddenu buddsoddiad. Credwn y gellir taro cydbwysedd fel a ganlyn.

Rydym yn cynnig yn amodol y dylid gosod y cyfyngiadau a ganlyn ar gyfraddau llog a delir gan gymdeithasau cydweithredol ar fuddsoddiadau, adneuon a benthyciadau.

1. Ni ddylai unrhyw gyfradd llog fod yn fwy na'r hyn sydd ei angen er mwyn cael cyllid angenrheidiol.
2. Ni ddylai unrhyw gyfradd llog fod yn fwy na chyfradd resymol.
3. Dylid talu llog ar fuddsoddiadau ac adneuon dim ond i'r graddau y mae swyddogion y gymdeithas yn credu y gall y gymdeithas hefyd dalu ei dyledion ar y pryd, ac fel y maent yn dod yn ddyledus dros y flwyddyn ganlynol.
4. Dylai cymdeithas gydweithredol sy'n ystyried taliadau llog allu talu cyfradd is, yn hytrach na'r cyfan neu ddim byd o gwbl, os dyna faint y mae'n gallu ei fforddio.

Credwn y dylai'r rheolau hyn fod yn gymwys i gymdeithasau budd cymunedol hefyd. Yn wir, mae'r sefyllfa'n llawer mwy difrifol yn achos cymdeithasau budd cymunedol. Ni allant ddarparu budd i'w haelodau neu fuddsoddwyr. Dim ond i'r gymuned y gallant ddarparu budd. O ganlyniad, fel mater o reidrwydd rhesymegol, ni all cymdeithasau budd cymunedol dalu cyfradd llog sy'n uwch na'r hyn sydd ei angen er mwyn cael cyllid. Ni ellir ystyried unrhyw gyfradd llog uwch na hynny fel cost prynu'r cyllid ar gyfer y prosiect budd cymunedol ac yn hytrach mae'n cynrychioli elw preifat (gwaharddedig) i'r buddsoddwr.

## A oes ar gymdeithasau angen math newydd o gyfranddaliad?

Mae rhai cyfranddalwyr yn dweud, er mwyn codi cyfalaf parhaol, bod angen math newydd o gyfranddaliad buddsoddwr nad yw'n ddefnyddiwr, na ellir ei dynnu allan, ond sy'n drosglwyddadwy. Mae buddsoddwr nad yw'n ddefnyddiwr yn rhywun sy'n buddsoddi mewn cymdeithas drwy brynu cyfranddaliadau, ac felly sy'n dod yn aelod, ond fel arall nad yw'n defnyddio gwasanaethau'r gymdeithas.

Fel y nodwyd uchod, credwn y gall cymdeithasau eisoes roi cyfranddaliadau na ellir eu tynnu allan, ond sy'n drosglwyddadwy, i fuddsoddwyr nad ydynt yn ddefnyddwyr. Er hyn, rydym yn gofyn i'r ymgyngoreion a oes angen math newydd o gyfranddaliad o hyd, ac os oes, beth allai ei nodweddion fod.

## Cynnigion ar gyfranddaliadau

Y gellir eu tynnu allan

Gellir ei dynnu allan a'i droi'n elw: Mae cymdeithas yn talu gwerth y cyfranddaliad i ddeiliad y cyfranddaliad, yn gyfnewid am ganslo'r cyfranddaliad

Gellir ei dynnu allan os yw'r aelod neu'r gymdeithas yn dewis gwneud hynny

Dim ond yn cael ei dalu os yw swyddogion y gymdeithas yn credu y gall y gymdeithas hefyd dalu ei dyledion

Na ellir eu tynnu allan

Trosglwyddadwy

Gellir ei drosglwyddo o un person i un arall fel bod y sawl y trosglwyddir y cyfranddaliad iddo yn dal y cyfranddaliad yn lle'r sawl sy'n ei drosglwyddo

Mae angen cydsyniad swyddogion y gymdeithas i drosglwyddo cyfranddaliadau

Anhrosglwyddadwy

Rydym yn cynnig cadarnhau bod modd roi cyfranddaliadau i amrywiaeth o ddeiliaid (gan gynnwys aelodau neu fuddsoddwyr), a gydag amrywiaeth o hawliau/ dosbarthiadau

Rydym ni'n cynnig rhagor o fesurau amddiffyn wrth: newid hawliau dosbarth a gostwng gwerth cyfranddaliadau

Llog ar gyfranddaliadau:

- Dim mwy na'r hyn sydd ei angen er mwyn cael cyllid angenrheidiol
- Dim mwy na chyfradd resymol
- Dim ond yn cael ei dalu os yw swyddogion y gymdeithas yn credu y gall y gymdeithas hefyd dalu ei dyledion

# Swyddogion cymdeithasau

### Wedi'u Rhestru ar Gofrestr Gyhoeddus Cwmnïau Cydfuddiannol

Rydym yn cynnig yn amodol y dylai swyddogion cymdeithas fod wedi'u rhestru ar Gofrestr Gyhoeddus Cwmnïau Cydfuddiannol, ac y dylai cymdeithas hysbysu'r cofrestrydd ynglŷn ag unrhyw newidiadau yn ymwneud â'i swyddogion cyn pen 14 diwrnod. Credwn y byddai hyn yn gwella tryloywder ac yn cynorthwyo'r cofrestrydd a thrydydd partïon i wybod gyda phwy y dylent fod yn delio.

### Cofrestr o swyddogion ac aelodau cymdeithas

Rhaid i gymdeithas gadw rhestr o swyddogion ac aelodau. Credwn ei bod yn briodol ailystyried pa wybodaeth sy'n cael ei chyhoeddi ar y rhestr hon. Os cyhoeddir gwybodaeth ddiangen, mae risg o dresmasu ar breifatrwydd neu hyd yn oed o ddwyn hunaniaeth.

Credwn ei bod yn briodol i gymdeithas sicrhau bod cofrestr o aelodau a swyddogion ar gael i'w harchwilio, a bod y gofrestr honno'n rhestru eu henwau a chyfeiriad er mwyn cysylltu â hwy. Gallai'r cyfeiriad fod yn gyfeiriad electronig neu'n gyfeiriad post. Nid oes angen i'r cyfeiriad post fod yr un cyfeiriad â'r un y maent yn byw ynddo. Nid ydym yn credu ei bod yn briodol bod yn rhaid i swyddog roi ei ddyddiad geni hefyd (fel sy'n digwydd ar hyn o bryd â'r datganiad blynyddol).

Yn ogystal, credwn ei bod yn briodol bod yr FCA yn cael ei hysbysu ynglŷn â chyfeiriad preswyl swyddogion, er mwyn i'r FCA allu cysylltu â'r swyddog, er enghraifft er mwyn gorfodi dyletswyddau dan y Ddeddf. Byddai'r cyfeiriad preswyl yn gyfrinachol fel arall.

### Dyletswyddau swyddogion

O ran dyletswyddau swyddogion i'w cymdeithas, rydym yn cynnig yn amodol y dylai'r Ddeddf fabwysiadu'r dyletswyddau cyfarwyddwyr a nodir yn Neddf Cwmnïau 2006. Mae rhanddeiliaid yn tueddu i gytuno bod dyletswyddau o'r fath yn bodoli'n barod. Mewn cyfraith cwmnïau, y farn gyson oedd y dylai dyletswyddau cyfarwyddwyr gael eu nodi'n benodol mewn statud, er mwyn bod yn glir, ac er mwyn cynyddu proffesiynoldeb. Nid ydym yn gweld unrhyw reswm ar hyn o bryd dros drin swyddogion cymdeithasau yn wahanol.

## Diwygiadau arfaethedig eraill

Mae'r rhanddeiliaid wedi awgrymu rhestr hir o faterion ar gyfer diwygio posibl. Nid yw hyn yn syndod, o ystyried cymaint o amser sydd wedi mynd heibio ers y tro diwethaf i gyfraith cymdeithasau gael ei hadolygu. Rydym wedi grwpio'r holl awgrymiadau eraill lle rydym yn cynnig diwygiadau gyda'i gilydd ym Mhennod 7 yn ein papur ymgynghori. Yma rydym yn darparu crynodeb o'n prif gynigion. Anogir ymgyngoreion i ddarllen y rhestr lawn o gynigion yn y papur ymgynghori.

### Hawl i apelio

Rydym yn cynnig yn amodol y dylid cael hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau gan y cofrestrydd ynglŷn â'r cwestiwn a yw cymdeithas yn bodloni'r diffiniad o gymdeithas gydweithredol neu gymdeithas budd cymunedol. Rydym yn gofyn i'r ymgyngoreion ystyried a ddylai'r apêl gael ei chlywed gan y llys (fel sy'n digwydd ar hyn o bryd) ynteu gan dribiwnlys, a rhannu eu barn.

### Atal cofrestriad

Rydym yn cynnig yn amodol y dylid diddymu pŵer y cofrestrydd i atal cofrestriad cymdeithas. Mae hyn oherwydd bod canlyniadau atal yn ansicr o safbwynt cyfreithiol, nid yw atal yn cael ei ddefnyddio'n ymarferol, a gall gael effeithiau eithafol a pharhaol (yn hytrach nag effeithiau ataliol yn unig).

### Canslo cofrestriad

Ar hyn o bryd, gall y cofrestrydd ganslo cofrestriad cymdeithas. Rhaid i'r cofrestrydd roi o leiaf ddau fis o rybudd i'r gymdeithas, a bydd y gymdeithas yn gallu cwestiynu'r penderfyniad i ganslo – ac eto gall y cofrestrydd roi cyfarwyddyd i ddirwyn y gymdeithas i ben ar ôl dim ond un mis.

Rydym yn cynnig yn amodol mai dim ond ar ôl i'r cyfnod hysbysu ar gyfer canslo fynd heibio y dylai'r cofrestrydd allu rhoi cyfarwyddyd i ddirwyn materion y gymdeithas i ben. I fod yn sicr, rydym yn cynnig y dylai'r cyfnod hysbysu ar gyfer canslo fod yn ddau fis. Rydym hefyd yn cynnig dyletswydd statudol ar y cofrestrydd i roi rhybudd rhesymol i gymdeithas cyn cyflwyno unrhyw hysbysiad o fwriad i ganslo.

### Ymwreiddio rheolau cymdeithasau

Rydym yn cynnig yn amodol y dylai cymdeithasau gael pŵer statudol i ymwreiddio unrhyw rai o'u rheolau. Mae ymwreiddio yn golygu na ellir newid rheol neu reolau ac eithrio drwy uwchfwyafrif o bleidleisiau. Rheolau cymdeithas fyddai'n penderfynu ynglŷn â'r trothwy pleidleisio y byddai ei angen er mwyn newid rheol sydd wedi'i hymwreiddio.

Rydym yn cynnig y dylai fod modd ymwreiddio rheolau cymdeithas ar adeg cofrestru cymdeithas neu yn ddiweddarach drwy benderfyniad arbennig. Byddai'r trothwy penderfyniad arbennig y mae'n rhaid mynd drosto er mwyn ymwreiddio rheol yr un fath â'r trothwy pleidleisio sy'n ofynnol ar gyfer mabwysiadu clo asedau.

Mae'r Ddeddf ar hyn o bryd yn pennu trothwyon pleidleisio sylfaenol ar gyfer amgylchiadau amrywiol, megis newid i fod yn gwmni. Rydym yn cynnig y dylai fod yn bosibl i gymdeithas osod trothwyon pleidleisio llymach fyth yn yr achosion hyn. Byddai hyn yn caniatáu i gymdeithas ymwreiddio rheolau yn erbyn datgydfuddiannu, er enghraifft.

## Clo asedau: cymdeithasau budd cymunedol

Mae'r Ddeddf yn darparu y gall Trysorlys EF wneud darpariaeth drwy reoliadau yn galluogi cymdeithas budd cymunedol i sicrhau na ellir ymdrin â'i hasedau ac eithrio at ddibenion a ragnodwyd. Gelwir hyn ar lafar yn glo asedau.

Mae Trysorlys EF wedi gwneud rheoliadau o'r fath (Rheoliadau Clo Asedau). Mae'r rhain yn darparu na chaiff y gymdeithas ddefnyddio na delio â'i hasedau ac eithrio ar gyfer diben sydd er budd y gymuned, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Fodd bynnag, gall y gymdeithas ddelio â'i hasedau er mwyn mynd i'r afael â nifer o senarios gweinyddol, fel ad-dalu cyfranddaliadau y gellir eu tynnu allan i aelod. Gall y gymdeithas hefyd drosglwyddo ei hasedau i gyrff eraill â chyfyngiadau clo asedau tebyg, gan gynnwys cymdeithas budd cymunedol arall, neu gwmni buddiannau cymunedol, neu elusen. Unwaith y bydd clo asedau statudol wedi ei roi ar waith ni ellir ei addasu.

Ar wahân i'r clo asedau statudol, mae Canllaw'r FCA ar hyn o bryd yn dweud bod yn rhaid i gymdeithas budd cymunedol gyflawni ei busnes yn gyfan gwbl er budd y gymuned. Rhaid defnyddio elw er budd y gymuned. Os bydd y gymdeithas yn gwerthu ei hasedau, rhaid defnyddio'r elw er budd y gymuned. Os bydd y gymdeithas yn cael ei diddymu, neu'n newid i fod yn gwmni, ni ellir dosbarthu'r asedau i aelodau. Yn hytrach, gallai'r gymdeithas drosglwyddo ei hasedau i sefydliad tebyg ag amcanion tebyg.

Yn unol â'r dull gweithredu presennol yng Nghanllaw'r FCA, rydym yn cynnig yn amodol ddiffiniad o gymdeithas budd cymunedol fel un sy'n cyflawni busnes er budd y gymuned yn unig (gweler uchod). Mae'r diffiniad hwnnw i bob pwrpas yn cyfyngu ar y defnydd o asedau: mae'n dilyn yn anorfod o'n diffiniad arfaethedig o gymdeithas budd cymunedol mai dim ond er budd cymuned y gellir defnyddio ei hasedau.

Er hyn, credwn hefyd fod y Rheoliadau Clo Asedau yn parhau'n ddefnyddiol. Maent yn rhoi pwerau gorfodi ychwanegol i'r cofrestrydd i ddiogelu asedau cymdeithas budd cymunedol. Maent yn rhestru'r eithriadau ymarferol pan fydd modd defnyddio asedau ac eithrio er budd y gymuned; ac mae cael rhestr o'r eithriadau hyn yn darparu eglurder.

O ystyried ein barn bod asedau cymdeithas budd cymunedol wedi'u "cloi" yn barod, i bob pwrpas, credwn y dylai'r Rheoliadau Clo Asedau fod yn gymwys i bob cymdeithas budd cymunedol, ac nid yn unig i'r rhai sy'n ymostwng iddynt drwy ddod â'r clo asedau statudol i rym. I ailadrodd, credwn nad oes llawer o wahaniaeth yn y bôn rhwng cymdeithas budd cymunedol sy'n defnyddio'r clo asedau statudol ac un nad yw'n gwneud hynny – rhaid i'r naill a'r llall ddefnyddio eu hasedau er budd y gymuned yn unig. Credwn y dylai'r Rheoliadau Clo Asedau fod yn gymwys yn yr un modd i bob cymdeithas budd cymunedol.

Felly, rydym yn cynnig yn amodol y dylid cynnwys y cyfyngiadau a'r pwerau gorfodi a nodir yn y Rheoliadau Clo Asedau yn y Ddeddf fel rhai sy'n gymwys i bob cymdeithas budd cymunedol.

Rydym hefyd yn cynnig y dylai fod yn bosibl i gymdeithas budd cymunedol sydd â chlo asedau statudol ddod yn elusen. Ar hyn o bryd, mae'r Rheoliadau Clo Asedau yn caniatáu trosglwyddo asedau i sefydliad nad yw'n elusen, na fyddai'n gydnaws â chyfraith elusennau. Mewn geiriau eraill, mae cyfraith elusennau yn llymach na'r Rheoliadau Clo Asedau. Credwn y dylai fod yn bosibl i gymdeithas budd cymunedol symud i'r system lymach honno.

## Clo asedau: cymdeithasau cydweithredol

Ar hyn o bryd, mae'r Rheoliadau Clo Asedau yn gymwys i gymdeithasau budd cymunedol yn unig. Nid yw ein diffiniad arfaethedig o gymdeithas gydweithredol ohono'i hun yn golygu cyfyngiad ar ddefnyddio asedau ychwaith.

Er hyn, mae Deddf Cymdeithasau Cydweithredol, Cwmnïau Cydfuddiannol a Chymdeithasau Cyfeillgar 2023 yn caniatáu cyflwyno clo asedau statudol ar gyfer cymdeithasau cydweithredol drwy is-ddeddfwriaeth. Nid yw Trysorlys EF wedi gwneud unrhyw reoliadau eto dan Ddeddf 2023.

Rydym yn cynnig yn amodol y dylid amlinellu darpariaethau clo asedau Deddf Cymdeithasau Cydweithredol, Cwmnïau Cydfuddiannol a Chymdeithasau Cyfeillgar 2023 yn y Ddeddf yn hytrach nag ar wahân. Byddai hynny'n gwneud y Ddeddf yn fwy cynhwysfawr ac yn haws ei defnyddio. Er cysondeb ac eglurder, rydym hefyd yn cynnig y dylai'r Rheoliadau Clo Asedau a fydd yn gymwys i gymdeithasau budd cymunedol fod yn gymwys i gymdeithasau cydweithredol sy'n dewis clo asedau statudol.

## Trosglwyddo ymrwymiadau

Rydym yn cynnig yn amodol y dylai'r Ddeddf ddarparu'n benodol ei bod yn bosibl trosglwyddo ymrwymiadau yn rhannol, i gwmnïau neu i gymdeithasau cofrestredig eraill. Credwn mai dyma'r sefyllfa yn barod, ond byddai dweud hynny'n benodol yn darparu mwy o eglurder a sicrwydd.

Yn ychwanegol at hyn, lle bo cymdeithas yn newid i gwmni, yn uno â chwmni, neu'n trosglwyddo ei hymrwymiadau i gwmni, rydym yn cynnig y dylid breinio unrhyw eiddo i'r gymdeithas a drosglwyddir heb broses drawsgludo. Mae hyn yn digwydd yn barod lle mae cymdeithas yn trosglwyddo ei hymrwymiadau i gymdeithas arall, ac mae'r Ddeddf eisoes yn darparu amddiffyniad i drydydd partïon sy'n cael eu heffeithio, megis credydwyr.

## Pwerau'r cofrestrydd

Mae ein Cylch Gorchwyl yn gofyn i ni ystyried sut y gallai diwygio greu "amgylchedd rheoleiddio mwy cymesur ac effeithiol". Mae'r FCA wedi gofyn bod y materion canlynol yn cael eu hystyried mewn ymgynghoriad.

Rydym yn gofyn i'r ymgyngoreion am eu barn ynglŷn â'r canlynol:

1. A oes angen i'r cofrestrydd hysbysebu canslo cofrestriad cymdeithas neu ei diddymiad mewn papur newydd lleol (fel sy'n digwydd ar hyn o bryd) yn ogystal ag yn y Gazette;
2. A ddylai'r Ddeddf rymuso'r cofrestrydd i nodi ei bod yn ofynnol cyflwyno dogfennau electronig yn unig;
3. A ddylai'r cofrestrydd gael y pŵer i orfodi cosb sifil ar ffurf dirwy ar gymdeithas sy'n hwyr yn cyflwyno ei datganiad blynyddol (yn unol â chosbau cyfatebol dan gyfraith cwmnïau);
4. A ddylid darparu ar gyfer sêl cofrestrydd cymdeithasau cydweithredol a chymdeithasau budd cymunedol dan y Ddeddf.

Rydym yn cynnig y canlynol yn amodol.

1. Dylai'r Ddeddf alluogi Trysorlys EF drwy reoleiddio i ddatgymhwyso dyletswyddau dan y Ddeddf, megis cyflwyno datganiadau blynyddol, dros dro am reswm arbennig (er enghraifft, yn ystod pandemig).
2. Dylid diddymu'r angen am lofnodion ar gyfrifon a gyflwynwyd gan gymdeithas.

3. Dylai'r cofrestrydd, yn amodol ar hawl i apelio, allu cyfarwyddo cymdeithas i newid ei henw ar ôl cofrestru os yw ei henw ers hynny wedi mynd yn amhriodol ym marn y cofrestrydd.
4. Dylai'r Ddeddf gydnabod Cofrestr Gyhoeddus Cwmnïau Cydfuddiannol fel yr unig gofrestr y dylai cofrestrydd cymdeithasau ei chynnal.
5. Dylai'r cofrestrydd allu defnyddio'r pwerau ymyrryd sydd ar gael iddo lle mae'r cofrestrydd yn credu bod yr ymyriad yn briodol yn yr amgylchiadau (yn hytrach na "dim ond i'r graddau y mae hynny'n angenrheidiol er mwyn cadw ffydd" mewn cymdeithasau, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd).

## Archwiliadau

Rydym yn cynnig yn amodol y dylid symleiddio'r system ar gyfer archwilio cymdeithasau, fel a ganlyn. Dylai unrhyw berson a benodir i archwilio'r cyfrifon fod yn archwilydd cymwysedig. Dylai cymdeithas allu optio allan o'r ddyletswydd i archwilio cyfrifon pan fydd y gymdeithas o dan drothwy penodol. Dylai'r trothwy hwnnw fod yn drosiant o ddim mwy na £10.2 miliwn ynghyd ag asedau o ddim mwy na £5.1 miliwn (mae'r trothwy hwn i'w weld ar hyn o bryd yn y Ddeddf). Dylid gallu adolygu'r trothwy drwy offeryn statudol. Dylai'r cofrestrydd ddal i allu mynnu cael archwiliad.

Rydym yn gofyn i'r ymgyngoreion a ddylai fod yn ofynnol drwy ddeddfwriaeth i gymdeithasau cydweithredol a/neu gymdeithasau budd cymunedol adrodd ynglŷn â sut mae eu gweithgareddau yn cyflawni eu hamcanion. Yn ogystal, a ddylai'r Ddeddf ganiatáu i flwyddyn ariannol cymdeithas ddod i ben hyd at saith niwrnod yn gynharach neu'n hwyrach na'r flwyddyn flaenorol (fel yn achos cyfraith cwmnïau). Ac rydym yn cynnig yn amodol y dylid diddymu'r ddyletswydd i arddangos mantolen yn swyddfa gofrestredig cymdeithas, gan fod dyletswydd yn barod i ddarparu datganiad blynyddol ar gais, a phan fydd datganiadau blynyddol ar gael ar Gofrestr Gyhoeddus Cwmnïau Cydfuddiannol.

## Cyflawni dogfennau

Rydym yn cynnig yn amodol y dylai'r Ddeddf ganiatáu i gymdeithas gyflawni dogfen drwy un llofnodwr awdurdodedig wedi'i ardystio gan dyst – ar hyn o bryd mae'r gyfraith yn gofyn am ddau lofnodwr awdurdodedig. Yn ogystal, rydym yn cynnig y dylai cymdeithas allu penodi drwy weithred atwrnai i gyflawni dogfennau ar ei rhan. Byddai'r ddau newid yn gyson â chyfraith cwmnïau, a byddai er hwylustod i gymdeithasau. Y cyfan y byddai'r Ddeddf yn ei wneud fyddai caniatáu hyn, yn hytrach na gwneud hynny'n ofynnol: gallai cymdeithas yn hytrach orfodi cyfyngiadau drwy ei rheolau.

## Enwau

Rydym yn cynnig yn amodol y dylid cynnwys y geiriau "cooperative", "co-op" a "coop" ynghyd â "co-operative" yn y rhestr o enwau busnes sensitif. Byddai angen i unrhyw un sy'n dymuno defnyddio'r enwau hyn gael caniatâd (fel sy'n digwydd ar hyn o bryd yn achos "co-operative"). Byddai hyn yn helpu i ddiogelu hunaniaeth cymdeithasau cydweithredol.

Rydym yn cynnig yn amodol y dylid diddymu'r gofyniad i arddangos enw cofrestredig cymdeithas y tu allan i bob man lle mae'n cyflawni busnes. Nid yw hyn yn addas bob amser, er enghraifft lle mae cymdeithas yn cael ei rhedeg o gyfeiriad preswyl. Nid yw'n ymddangos bod cydymffurfiad llawn â'r rheol bresennol ac nad yw'n cael ei phlismona.

## Cyfarfodydd ar-lein

Rydym yn cynnig yn amodol y dylai'r Ddeddf ganiatáu yn benodol i gyfarfodydd fod yn rhithwir neu'n hybrid (yn ogystal ag yn gyfarfodydd wyneb yn wyneb). Mae rhywfaint o amheuaeth a yw hyn yn cael ei ganiatáu ar hyn o bryd, ond mae'n ymddangos yn ffordd gyfleus a phoblogaidd o weithio. Y cyfan y byddai'r Ddeddf yn ei wneud fyddai caniatáu hyn, yn hytrach na'i wneud yn ofynnol: gallai cymdeithas yn hytrach orfodi cyfyngiadau drwy ei rheolau.

## Cronfeydd wrth gefn anrhanadwy

Gallai gwarged masnachu nad yw'n cael ei ddosbarthu i aelodau fel difidend gael ei ddyrannu yn lle hynny i'r gronfa wrth gefn anrhanadwy. Cedwir hon fel eiddo cyffredin er budd y gymdeithas ei hun (yn hytrach nag eiddo y gellir ei rannu neu ei ddosbarthu).

Rydym yn gofyn i ymgyngoreion a ddylai'r Ddeddf nodi'n benodol y gall rheolau cymdeithasau ddarparu ar gyfer cronfa wrth gefn anrhanadwy. Credwn nad oes llawer o amheuaeth y gall cymdeithas gael cronfa wrth gefn anrhanadwy. Fodd bynnag, gallai cydnabyddiaeth benodol yn y statud ddarparu "bachyn" ar gyfer cynlluniau polisi.

## Bancio ac undebau credyd

Mae y tu hwnt i gwmpas ein hadolygiad presennol i ystyried a oes angen unrhyw ddiwygiadau i gyfraith undebau credyd neu i gefnogi bancio cydweithredol. Er hyn, mae'r adolygiad hwn yn darparu cyfle i ganfod ffeithiau er mwyn asesu faint o alw sydd am ddiwygiadau o'r fath, ac rydym yn gofyn am farn yr ymgyngoreion yn unol â hynny. Rydym hefyd yn gofyn a oes gan unrhyw rai o'r diwygiadau a gynigir i'r Ddeddf ganlyniadau arbennig i undebau credyd neu fanciau cydweithredol y dylem eu hystyried.

102

Find out more at design102.co.uk
**Design that makes a difference**